Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

# Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium
EAS
GwE
PARTNERIAETH
Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru
Mid Wales Education Partners

# Pam cafodd hyn ei greu?

Er mwyn eich galluogi i fyfyrio ar eich perfformiad presennol a phenderfynu beth sydd angen i chi ei wneud er mwyn dod yn Bennaeth hyd yn oed yn fwy effeithiol.

Mae'n rhoi i chi:

- y lle i drafod eich heriau arweinyddiaeth bersonol, eich datblygiad a'ch twf
- syniadau, damcaniaethau ac offer i'w harchwilio gyda'i gilydd
- her a chefnogaeth wedi'i theilwra'n bersonol gan eraill.


Yr unig ddiben yw eich helpu i wella.

# Beth sydd dan sylw?




Adolygiad arweinyddiaeth 360 gradd

Cymell un i un





Dau weithdy preswyl

# Adolygiad Arweinyddiaeth 360 Gradd

Bydd gofyn i bawb sy'n cymryd rhan yn y rhaglen gynnal adolygiad arweinyddiaeth 360 gradd.

Bydd hyn yn caniatáu i chi fesur eich hun yn erbyn cyfres o gymwyseddau arweinyddiaeth. Byddwch hefyd yn gallu mesur eich barn yn erbyn barn cyfoedion a chydweithwyr.

Bydd cymhellwr wedyn yn gweithio drwy’r adroddiad adborth gyda chi, gan archwilio gwahaniaethau mewn canfyddiad, themâu, meysydd cryfder a nodi meysydd i’w gwella.



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbartho
Regional School Improvement Consortia

# Gweithdai Preswyl

Bydd y rhaglen yn cynnwys dwy ganolfan breswyl – un yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth, a’r llall ar newid – lle byddwn yn dod â chi ynghyd â chyfranogwyr eraill er mwyn i chi:

- Ddeall effaith eich arweinyddiaeth eich hun ar eraill
- Deall effaith arddulliau arwain priodol
- Deall damcaniaethau newid
- Deall a chefnogi pobl yn y broses newid gan roi sylw arbennig i les
- Cynllunio ar gyfer ac asesu parodrwydd newid
- Datblygu eich sgiliau cyfathrebu



Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

# Cymell un i un

*“Nid dweud wrth bobl beth i’w wneud yw cymell; mae’n golygu rhoi’r cyfle iddyn nhw archwilio’r hyn maen nhw’n ei wneud yng ngoleuni eu bwriadau."*
James Flaherty

Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn cael eu cymhellwr gweithredol profiadol a chymwys iawn eu hunain. Byddant yn gweithio gyda chi ar sail gyfrinachol, 1-i-1 i ganolbwyntio ar eich anghenion unigol.

Bydd eich cymhellwr proffesiynol yn darparu amgylchedd diogel, strwythuredig a chyfrinachol i'ch helpu i ddeall eich cymwyseddau presennol, nodi ac egluro nodau a'r camau gweithredu y mae angen i chi eu cymryd i gyrraedd y nodau hynny.

